Daniel: Y Brenin Belshasar a'r Ysgrifen ar y wal

Daniel 5: 1-31

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Daniel 5: 1-31		
1	Ar ôl i i'w fyddin goncro Jerwsalem roedd y Brenin Nebwchadnesar wedi mynd â phobl y ddinas i Babilon fel caethion. Un o'r caethion oedd Daniel. Daeth yn swyddog pwysig yn llywodraeth y wlad. Ar ôl i Nebwchadnesar farw daeth Belshasar yn frenin.		
2	Roedd y brenin Belshasar wedi trefnu gwledd i fil (1,000) o'i uchel-swyddogion		
3	Pan oedd y gwin wedi mynd i'w ben dyma Belshasar yn gorchymyn dod â'r llestri aur ac arian oedd Nebwchadnesar wedi eu cymryd o'r deml yn Jerwsalem. Roedd am yfed ohonyn nhw, gyda'i uchel-swyddogion, ei wragedd a'i gariadon i gyd.		

4	Felly dyma nhw'n dod â'r llestri aur ac arian oedd wedi eu cymryd o deml Duw yn Jerwsalem. A dyma'r brenin a'i uchel-swyddogion, ei wragedd a'i gariadon yn yfed ohonyn nhw. Wrth yfed y gwin roedden nhw'n canmol eu duwiau — eilun-dduwiau wedi eu gwneud o aur, arian, pres, haearn, pren a charreg.	
5	Yna'n sydyn roedd bysedd llaw ddynol i'w gweld yng ngolau'r lamp, yn ysgrifennu rhywbeth ar wal blastr yr ystafell. Roedd y brenin yn gallu gweld y llaw yn ysgrifennu. Aeth yn welw gan ddychryn. Roedd ei goesau'n wan a'i liniau'n crynu.	
6	Gwaeddodd yn uchel a galw am ei ddewiniaid, y dynion doeth a'r swynwyr. Dwedodd wrthyn nhw “Bydd pwy bynnag sy'n darllen yr ysgrifen a dweud beth mae'n ei olygu yn cael ei anrhydeddu — bydd yn cael ei wisgo mewn porffor, yn cael cadwyn aur am ei wddf, ac yn cael y drydedd swydd uchaf yn y deyrnas.”	
7	Ond allai run ohonyn nhw ddarllen yr ysgrifen na dweud beth oedd ei ystyr. Erbyn hyn roedd y brenin Belshasar wedi dychryn am ei fywyd. Roedd yn wyn fel y galchen ac roedd ei uchel-swyddogion i gyd wedi drysu'n lân.	

8	Pan glywodd y fam frenhines yr hanes aeth i mewn i'r neuadd fwyta. “Paid dychryn. Mae yna ddyn yn dy deyrnas sydd ag ysbryd y duwiau sanctaidd ynddo. Pan oedd Nebwchadnesar yn frenin, daeth yn amlwg fod gan y dyn yma ddeall a doethineb fel petai'n un o'r duwiau ei hun. Roedd yna rywbeth cwbl arbennig am y dyn yma, Daniel. Galw amdano, a bydd e'n dweud wrthot ti beth mae'r ysgrifen yn ei olygu.”	
9	Felly dyma nhw'n dod â Daniel at y brenin. A dyma'r brenin yn dweud wrtho, “Dw i wedi clywed fod ysbryd y duwiau sanctaidd ynot ti. Dw i wedi gofyn i'r dynion doeth a'r swynwyr ddarllen ac esbonio'r ysgrifen yma i mi, ond dŷn nhw ddim yn gallu. Os gelli di ei ddarllen a dweud wrtho i beth mae'n ei olygu, byddi'n cael dy wisgo mewn porffor, yn cael cadwyn aur am dy wddf, ac yn cael y drydedd swydd uchaf yn y deyrnas.”	
10	Ond dyma Daniel yn ateb y brenin, “Cadwch eich rhoddion a'u rhoi nhw i rywun arall. Ond gwna i ddweud wrth y brenin beth ydy ystyr yr ysgrifen. Dych chi wedi herio Arglwydd y nefoedd, drwy gymryd llestri ei deml a'i defnyddio nhw i yfed gwin ohonyn nhw. Ac wedyn dych chi wedi canmol eich duwiau o aur, arian, pres, haearn, pren a charreg — duwiau sy'n gweld, clywed na deall dim!"	

11	"Dyna pam anfonodd e'r llaw i ysgrifennu'r neges yma: MENE, MENE, TECEL, a PHARSIN. A dyma ystyr y geiriau:	
12	Ystyr MENE ydy ‘cyfrif’. Mae dyddiau eich teyrnasiad wedi eu rhifo. Mae Duw'n dod â nhw i ben. Ystyr TECEL ydy ‘pwyso’. Chi wedi'ch pwyso yn y glorian, a'ch cael yn brin. Ystyr PARSIN ydy ‘rhannu’. Mae'ch teyrnas wedi ei rhannu'n ei hanner a'i rhoi i Media a Persia.”	
13	Dyma Belshasar yn gorchymyn fod Daniel i gael ei wisgo mewn porffor, i gael cadwyn aur am ei wddf, ac i'w ddyrchafu i'r drydedd swydd uchaf yn y deyrnas.	
14	Ond ar y noson honno cafodd Belshasar, brenin Babilon, ei lofruddio. Daeth Dareius y Mediad yn frenin ar y deyrnas.	
15	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	